Er gwybodaeth :

- Hoffem ddiolch o galon i nain Ena / Nan a Nel sef Mrs Wendy Parry am blannu blodau'r Gwanwyn yn yr holl botiau o gwmpas yr ysgol.Maent yn werth eu gweld.
- Llongyfarchiadau i Erin a Cadi o flwyddyn 6 am ddod yn 1af yng nghystadleuaeth Dawnsio Disgo yr Urdd a hefyd i Cadi Lois am ddod yn ail yn y dawnsio disgo unigol. Da iawn chi ac i bawb arall fu'n cystadlu.
- Llongyfarchiadau hefyd i Cadi a Mirain sy'n aelodau o dim pêl rwyd Walis Dre a ennillodd y gyngrair bêl rwyd yr wythnos diwethaf.
- Cafodd blwyddyn 3/4/5 a 6 sesiwn chwaraeon yr Urdd bore heddiw a bu i flwyddyn 6 gael sesiwn Diogelwch y ffordd yn y pnawn.
- Bydd Gwen o Sustrans yn trwshio beics yn yr ysgol ddydd Mawrth nesaf.Manylion ynghlwm.
- Cynhelir Cyngerdd Band Rhanbarth Eryri yn Theatr Seilio nos Fercher nesaf am 5.30-y.h Mawrth y 18fed.
- Cynhelir Gala Nofio Ysgolion Arfon ddydd Iau nesaf Mawrth y 19eg.Bydd blwyddyn 5 a 4 yn cael gwersi nofio ddydd Mawrth nesaf. Bl 3 yn cael gwersi tenis.

Er gwybodaeth :

- Cynhelir cyfarfod Llywodraethwyr nos Iau nesaf Mawrth y 26ain am 6.30 y.h
- Cynhelir nosweithiau rhieni nos Lun Mawrth y 30ain – nos Fercher Ebrill y 1af.Mwy o wybodaeth i ddilyn.
- Llongyfarchiadau mawr iawn i Mrs Bethan Wyn Jones ar ei phenodiad fel Pennaeth newydd yr ysgol.

Annwyl blant, rhieni a chyfeillion Ysgol Waunfawr,

Gyda phleser yr wyf yn cyflwyno fy hun i chi yn dilyn fy mhenodiad yn Bennaeth Ysgol Waunfawr ar gyfer Medi 2020.
Cefais fy magu yn Ynys Môn yn ferch i deulu siop esgidiau yn Amlwch. Mynychais Ysgol Gynradd Amlwch ac Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, cyn graddio o Brifysgol Bangor yn dilyn astudio Ieithyddiaeth a Chymdeithaseg. Mynychais yr Ysgol Addysg er mwyn derbyn cymhwyster TAR addysg cynradd cyn cael fy mhenodi yn athrawes yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis.
Yn ystod fy nghyfnod hapus yn Llanberis yr wyf wedi addysgu Blynyddoedd 3,4 a 6 yn ogystal â chael fy mhenodi yn Ddirprwy a Phennaeth Mewn Gofal ar yr ysgol.
Yr wyf yn briod ac yn fam i ddau o feibion ac wedi ymgartrefu ym mhentref Rhiwlas.
Edrychaf ymlaen yn arw i gael cychwyn gweithio yn yr ysgol ac i ddod i adnabod y gymuned a'i phobl yn well. Mae Ysgol Waunfawr yn amlwg yn ysgol braf, a braint fydd cael bod yn rhan o'r gwaith tim ardderchog sy'n bodoli yno.

Bethan Wyn Jones

Ysgol Waunfawr Letter No 18 13/3/20

For your information:

- Many thanks to Mrs Wendy Parry Ena/ Nan and Nel's gran for planting all the spring flowers In the pots around the school. They look lovely.
- Congratulations to Erin and Cadi from year 6 for coming 1st with their Disco Dancing Team in the Urdd Competition and to Cadi for coming 2nd with her solo disco dancing.
- Congratulations to Cadi and Mirain members of the 'Walis Dre' netball team for winning the league last week.
- Years 3/4/5/6 had a Sports Urdd Session this morning and Yr 6 had a Road Safety Session in the afternoon.
- Gwen from Sustrans will be repairing bikes at the school next Tuesday. Letter attached
- Eryri School's Band Concert at Theatre Seilo next Wednesday evening March the18th at 5.30 o'clock.
- Arfon's Swimming Gala will be held next Thursday March the 19th.Years 5 and 6 will be recieving swimming lessons next Tuesday and Yr 3 Tennis lessons.

For your information:

- There will be a Governors Meeting on Thursday evening March the 26th at 6.30PM.
- There will be Parent's evenings from Monday March the 30th – Wednesday April the 1st.More information to follow.
- Congratulations to Mrs Bethan Wyn Jones on her appointment as the new headmistress of the school.

Dear children, parents and friends of Ysgol Waunfawr,

It is with great pleasure that I introduce myself following my recent appointment as Head of Ysgol Waunfawr for September 2020.
I was born and raised in a family-run shoe shop in Amlwch, Ynys Môn and educated at Ysgol Gynradd Amlwch and Ysgol Syr Thomas Jones. I graduated in Linguistics and Sociology at Bangor University before completing the PGCE primary education course. I was appointed to my first teaching role at Ysgol Dolbadarn, Llanberis and have taught years 3, 4, and 6 as well as duties as Deputy Head and Acting Head, in the last few years.
I am married and a mother to two sons, happily settled in Rhiwlas.
I very much look forward to working at the school in September as well as getting to know the community of Waunfawr. Ysgol Waunfawr is obviously a happy and busy school, and it is a privilege that I shall join this enthusiastic team in September.

Bethan Wyn Jones